

Gair Duw

‘Agor inni’r Ysgrythurau

Dangos inni Geidwad dyn.’

Cymorth ni i’th glywed yn llefaru ym mywyd a pherson dy Fab Iesu
Grist: yn ei ddysgeidiaeth bur, yn ei weithredoedd nerthol ac yng ngrym
ei angau a’i atgyfodiad.

EMYNAU

Dyma’r llusern sy’n llewyrchu ar daith bywyd:

Am air ein Duw rhown â’n holl fryd
soniarus fawl drwy’r eang fyd;
mae’n llusern bur i’n traed, heb goll,
mae’n llewyrch ar ein llwybrau oll.

Gomer (*Caneuon Ffydd*: 172)

Hwn yw’r Gair sy’n abl i’n harwain trwy gymhlethodau bywyd:

Mae dy air yn abl i’m harwain
drwy’r anialwch mawr ymlaen,
mae e’n golofn olau, eglur,
weithiau o niwl, ac weithiau o dân;
mae’n ddi-ble ynddo fe,
fwy na’r ddaear, fwy na’r ne’.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 185)

Mae’r Gair yn ein galluogi i ddehongli bywyd a marwolaeth yng ngoleuni bywyd Iesu:

Dyma Feibil annwyl Iesu,
dyma rodd deheulaw Duw;
dengys hwn y ffordd i farw,
dengys hwn y ffordd i fyw;

dengys hwn y golled erchyll
 gafwyd draw yn Eden drist,
 dengys hwn y ffordd i'r bywyd
 drwy adnabod Iesu Grist.

Casgliad T. Owen *priodolir* i Richard Davies (*Caneuon Ffydd*: 198)

**Uwch dadwrdd daear a'r tymhestlog donnau boed i mi glywed sŵn y
 Gair sy'n tawelu:**

Arglwydd, rho im glywed
 sŵn sy eiriau glân,
 geiriau pur y bywyd,
 geiriau'r tafod tân.

T. Ellis Jones (*Caneuon Ffydd*: 220)

**Arwain fi i chwilio'r gwirioneddau am Dduw a'i Fab Iesu ar
 dudalennau'r Beibl:**

O Arglwydd, dysg im chwilio
 i wirioneddau'r Gair
 nes dod o hyd i'r Ceidwad
 fu gynt ar liniau Mair;
 mae ef yn Dduw galluog,
 mae'n gadarn i iacháu;
 er cymaint yw fy llygredd
 mae'n ffynnon i'm glanhau.

Grawn-Syppiau Canaan (*Caneuon Ffydd*: 333)

**Yr un yw efengyl Iesu, y Gair, ymhob oes er fod amgylchiadau dyn yn
 newid:**

Newid mae gwybodaeth
 a dysgeidiaeth dyn;
 aros mae Efengyl
 Iesu byth yr un;

Athro ac Arweinydd
 yw efe 'mhob oes;
 a thra pery'r ddaear
 pery golau'r groes.

Elfed (*Caneuon Ffydd*: 381)

GWEDDIAU

Mae'r Gair yn cynnal, yn creu a'n cynorthwyo ni i ddarganfod Iesu Grist o'r newydd:

Gair ydyw sy'n creu ac yn cynnal, a chreiaist ninnau o'r newydd drwy dy Air yn ein Harglwydd Iesu Grist. Diolchwn i ti am y Gair a ddaeth yn gnawd 'a phreswylodd yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd'. Galluoga ni, drwy weinidogaeth dy Lân Ysbryd, i ddarganfod y Crist hwn yn dy Air a gweld o'r newydd ogoniant ei berson fel unig Fab a ddaeth oddi wrth y Tad ac a hysbysodd i ni ddirgelion dy deyrnas a'r bywyd tragwyddol. Amen.

Geraint Hughes

Boed i'r Gair ein harwain trwy ein bywyd a thu hwnt i ffiniau amser:

Gan mai ymlaen yr awn ar y daith, diolch i Ti am y Gair sy'n arwain nid yn unig ar daith bywyd ond ar daith tragwyddoldeb, ac mai ar dy Air y pwyswn hyd yn oed y pryd hynny. Fe gafodd cannoedd a miloedd o bobl gynhafiaeth a chynhysgaeth yn eu bywyd trwy rym dy Air Di. Amen.

Iwan Ll. Jones

Diolch am y rhai, ar hyd yr oesoedd, sydd wedi dod i'th adnabod trwy'r Gair:

Ar hyd y canrifoedd yr wyt ti, ein Tad, drwy'r Ysgrythur wedi arwain rhywrai i'th adnabod yn well, ac effaith adnabyddiaeth lwyrach ohonot ti yn ddieithriad fu dwyn goleuni i fywydau rhywrai eraill. Rydym oll mewn dyled i'r gwŷr a'r gwragedd a'th adnabu di drwy dy Air. Pobl a fynnodd fod eu cyd-ddynion yn cael gwell bywyd am iddynt eu gweld

yng ngoleuni dy deyrnas. Mae'r hen yn cael ymgeledd, a'r plant yn cael addysg, a'r gwan yn cael cynhaliath heddiw am i rywrai sylweddoli mai dy eiddo di oeddynt. Amen.

Elwyn Richards

Boed i'r Ysbryd Glân ein harwain wrth i ni droi tudalennau'r Gair:

Fe gyflwynwn i ti, Dad Nefol, y rhai hynny a fydd heddiw yn agor y Beibl am y tro cyntaf a dysgu am gyflawnder dy gariad a'th ras achubol yn Iesu Grist. Gweddïwn y daw pob un ohonynt yn ymwybodol o bresenoldeb yr Ysbryd Glân fel eu cymorth a'u harweinydd. Amen.

Gweddïau ar gyfer Dydd yr Arglwydd

Cofiw'n am y rhai sydd wrthi'n ymdrechu i wneud y Gair yn fwy dealladwy a'r rhai sy'n tystiolaethu i'r Gair:

Gweddïwn ar ran y rhai sy'n gweithio i wneud yr Ysgrythurau yn hysbys ac ar gael i bawb –

y rhai sy'n cyfieithu'r Beibl i ieithoedd modern a thafodieithoedd eraill, sy'n ei argraffu a'i ddsbarthu ar draws y byd, yn ymdrechu i agor ei neges o'r newydd i bob cenhedlaeth yn ei thro; ac sy'n pregethu ohono, yn tystiolaethu i Grist o'i dudalennau. Amen.

Eirian a Gwilym Dafydd

ADNODAU

Diolchwn am y rhai sy'n barod i egluro ac esbonio'r Gair:

Rhedodd Philip ato a chlywodd ef yn darllen y proffwyd Eseia, ac meddai, "A wyt ti'n deall, tybed, beth yr wyt yn ei ddarllen?" Meddai yntau, "Wel, sut y gallwn i, heb i rywun fy nghyfarwyddo?" Gwahoddodd Philip i ddod i fyny ato ac eistedd gydag ef.

Actau 8: 30–31

Mae Iesu'n dod i Galilea i gyhoeddi Efengyl Duw trwy annog y bobl i edifarhau a chredu:

Wedi i Ioan gael ei garcharu daeth Iesu i Galilea gan gyhoeddi Efengyl Duw a dweud: “Y mae'r amser wedi ei gyflawni ac y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos. Edifarhewch a chredwch yr Efengyl.”

Marc 1: 14–15

Mae'r Gair yn bod o'r dechrau a daeth yn gnawd yn Iesu Grist:

Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair.

Ioan 1: 1

Wedi eu donio â'r Ysbryd Glân mae'r disgyblion yn barod i gyhoeddi'r gair yn hy:

Ac wedi iddynt weddio, ysgydwyd y lle yr oeddent wedi ymgynnull ynddo, a llanwyd hwy oll â'r Ysbryd Glân, a llefarasant air Duw yn hy.

Actau 4: 31

Mae Paul yn annog Timotheus i bregethu'r gair sef argyhoeddi, ceryddu a chalonogi:

Pregetha'r gair; bydd yn barod bob amser, boed yn gyfleus neu'n anghyfleus; argyhoedda; cerydda; calonoga; a hyn ag amynedd di-ball wrth hyfforddi.

2 Timotheus 4: 2

Mae llythyr ymarferol Iago yn ein hatgoffa i fod yn weithredwyr y gair yn ogystal â gwrandawyr:

Byddwch yn weithredwyr y gair, nid yn wrandawyr yn unig, gan eich twyllo eich hunain.

Iago 1: 22

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Y Beibl yw'r unig lyfr y mae'r Awdur ei Hun yn bresennol bob tro y caiff ei ddarllen.

Postiodd gwraig gopi o'r Beibl i'w ffrind. Gofynnodd y postfeistr iddi yn swyddfa'r post, 'Oes 'na rywbeth wnaiff dorri yn y parcel?' 'Na,' meddai'r wraig, 'dim ond y Deg Gorchymyn!'

Llyfr gobaith ydi'r Beibl a'i thema drwyddo ydi bod Duw yn bod, yn gweithredu ac yn gofalu amdanom. Ond mae hefyd yn ateb y cwestiwn, 'Beth yw dyn?' Plentyn i Dduw.

Ond tybed ydi Duw wedi siarad â ni unwaith ac am byth yn nhudalennau'r Beibl, ac wedi anghofio amdanom y dyddiau hyn? Na, mae Duw yn dal i lefaru – dyna'r gwirionedd Cristnogol.

Nid pobl yn siarad am Dduw, ond Duw yn siarad â phobl, yw cynnwys y Beibl.